LLOYD, WILLIAM VALENTINE (1825 - 1896), clerigwr, ysgrifennydd y Powysland Club, golygydd y Montgomeryshire Collections

Enw: William Valentine Lloyd
Dyddiad geni: 1825
Dyddiad marw: 1896
Priod: Caroline Amelia Sophia Lloyd (née Aylmer)
Rhiant: Jane Lloyd (née Fitzgerald)
Rhiant: William Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, ysgrifennydd y Powysland Club, golygydd y Montgomeryshire Collections
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Idwal Lewis

Ganwyd 14 Chwefror 1825 yn Llundain, mab William Lloyd a Jane Fitzgerald. Addysgwyd ef yn ysgol Amwythig a Choleg y Drindod, Dulyn. Urddwyd ef yn ddiacon yn 1850, yn offeiriad yn 1851, a'i benodi'n gurad yng nghenhadaeth Lennoxville, Canada. Penodwyd ef i ficeriaeth Marton, Sir Amwythig, yn 1856, ac yn 1858 fe'i gwnaed yn gaplan yn y llynges ac yn hyfforddwr ddwy flynedd yn ddiweddarach. Yn 1879 dewiswyd ef yn gaplan i'r llyngesydd dug Coburg. Ymddiswyddodd yn 1882 a'i benodi'n rheithor Haselbeech, ger Northampton, ac yno y bu hyd ei farw. Priododd, 1850, Caroline Amelia Sophia, unig ferch capten John Athelmer Aylmer, a bu iddynt ddwy ferch. Bu farw yn Leamington, 17 Mehefin 1896, a'i gladdu ym mynwent Chirbury. Bu'n un o gefnogwyr mwyaf selog y ' Powysland Club ' o'i gychwyn, ac yn gyd-ysgrifennydd am gyfnod. Ysgrifennai'n gyson i'r *Montgomeryshire Collections*, a bu'n olygydd iddo am dymor. Ei waith pwysicaf yw ' *The Sheriffs of Montgomeryshire, 1541 to 1638*,' a gyhoeddwyd yn 1876, sef cyfres o erthyglau a ymddangosodd gyntaf yn *Collections, historical & archaeological relating to Montgomeryshire*, i-ix. Ailgychwynnwyd y gyfres yn cyf. xxvii, ond oherwydd afiechyd yr awdur nid aeth ymhellach na'r flwyddyn 1676.

Awdur

Idwal Lewis

Ffynonellau

Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire, xxix, 323

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734711

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu